

(Parhâd o'r dudalen flaenorol)

Mi wn dy fod wedi 'torri' llawer peth ar dy yrfa, ond a wyt wedi torri dant eto? Dyma, mae'n ymddangos i mi bwn y dydd ym myd babanod o hanner blwydd ac uchod. Nacaol yw f'ateb i i'r gofyniad hyd yn hyn, ond mae Mam yn rhyw led ofni fy mod yn neshau at y dyddiau blin, a'r nos weithian 'na bydd i mi ddim diddanwch ynddynt'.

Bu dy Nain a'th fodryb Lowri yma yn edrych amdanaf ryw noson. Yr oeddynt yn fy ngweld wedi newid llawer ... hawdd oedd deall oddiwrth eu hysgwrs eu bod yn meddwl y byd o'u Harthur.

A ddoi di am y cyntaf i 'dorri gair' os nad wyt wedi cael y blaen arnaf yn barod? Cofia di mai gair Cymraeg glân gloyw ydyw i fod. Rwy'n disgwyl y mynni di dyfu i fyny yn Gymro, er dy fod yn byw ym Mhenbedw. Os na wnei bedw a gei. Cofied dy Fam bennill tlws Ceiriog:

Arthur bach tyrd yma
Ac ar fy neulin dysga
Iaith dy Fam yn gyntaf un
Ac wedyn iaith Victoria ...

Cofion cynhesaf atat ac at dy Dad a'th Fam.

Yn bur fyth,
Peredur Wyn.

Mae'r trydydd epistol yn llongyfarch Arthur Meirion ar gyrraedd ei flwydd oed -

28, New Street
Porthg.
Mehefin 2 fed '09

Anwyl Arthur Meirion,

Yr wyf yn anfon gair i'th longyfarch ar dy ben blwydd cyntaf. Y mae llawer o sôn am y digwyddiad yn y dref hon...

Wel, Arthur, buaswn yn caru bod yna yfory er mwyn cael tipyn o dy brofiad ar ôl dod drwy flinderau deuddeg mis. Efallai y cawswn wledd fach hefyd yn dy gysgod...

Dwn i ddim faint o'r 'hen iaith' wyt ti wedi ddyysgu erbyn hyn. Rhyw ddau neu dri o'r prif eiriau cyfarch dyna'r cwbl ydyw'i wedi feistrolu eto - just ddigon i blesio 'Nhad a Mam wydd eto - just ddigon ym llawer mwy medrus ar ysgwyd fy mhen ac arfer fy nhraed a'nwyl, na phan welaist fi.

Medraf hestumia ychydig. Y nhrwyn a gwneud rhyw fân ystumiau felly. Y mae gennyf hefyd dri dant a byddaf yn cael pleser mawr wrth eu rhyngwylt neu eu cau am fisedd pobol eraill.

Brysia fagu rhai Arthur - cei weld eu bod yn bethau defnyddiol iawn mewn byd lle mae cymaint o eisio chnoi...

Y mae fy mhapyr yn mynd yn brin, felly, rhaid i mi dorri fy stori'n fyr...

Pa bryd y cawn dy weld nesaf...?
Dy gyfaill ifanc ffyddlon,

Peredur Wyn.

Anfonwyd y llythyr olaf ar Fedi 8 '09. Roedd Peredur Wyn yntau erbyn hynny wedi cyrraedd ei flwydd oed ac yn anfon i ddiolch i Arthur Meirion am yr anrheg a gawsai ganddo. Roedd y llythyrau blaenorol yn llawysgrifen y bardd ond wedi ei deipio y mae hwn.

To new at
Porthg.
Feb. 2nd
Anwyl Arthur Meirion,
Yr wyf yn anfon
gair i'th longyfarch ar dy
ben blwydd cyntaf.
Y mae llawer o
sôn am y digwyddiad yn y
dref hon. Buan yw Cymro
Hanes ddod, a dyna aed
faua y dydd ym. Anrheg
gwelw di wrthy Edward yn
rghas'n Gwedd, a dyna aed.

Llawysgrifen Eifion Wyn(1867-1926)

Fanwyl Arthur Meirion

Cyrhaeddodd dy anrheg yn gyfa ac mewn 'working order'. Can diolch i ti am fy nghadw mewn cof ar fy mhen blwydd cynta' ... Caf lawer o bleser wrth edrych ar yr olwyn fawr yn troi mor araf. Ac yr wyf mewn cariad dros 'y mhen â'r mwnci bach sy'n ei gwman wrth ei hochr. Chydig iawn o orffwys y mae o wedi gael er pan y mae o yma. Dydio ddim yn perthyn dafn o waed i'r 'unemployed'. Bydd wrthi o fore hyd nos a'i gloch bach yn tincian - mae' Nhad yn dweyd ei fod yn batrwm i ni gyd mewn diwydrwydd. Gwell mwnci diwyd medda fo na dyn diog. Wel, Arthur, dyma ni ein dau dros flwyddyn oed. Ond ydi'n anodd credu? Buan y down i deimlo ein bod yn mynd ymlaen mewn dyddie. Hyd yn oed ym mywyd plentyn blwydd y mae rhyw bethau a fu 'every young life has its old times'. Wyt ti'n cofio Arthur -

Wyt ti'n cofio'r botel sugno
A'r hen glwt a wisgem gyt?
Wyt ti'n cofio'r cryd i'n siglo
A'r hen golsyn torri gwynt?

Un codwm o bwys a ges i yn ystod y flwyddyn - o'r gwely i'r llofft ... clywais dy fod di wedi cael amryw byd ond dy fod yn dal wrth dy gilydd ar waetha'r cwbl...

Prin yr ydyw i wedi cael fy nhraed danaf eto. Byddaf yn cropian i fyny'r grisiau bob dydd a fyddwn i fawr o dro yn cerdded hefyd pe cawn i fy ffordd. Ond pob peth yn ei amser, medda Mam ...

Gwn amryw eiriau ac enwau bellach ... medraf siarad yn rhigl yn fy null fy hun ... mi wn y byddi ditha yn traddodi aml i araeth felly - math o 'speech without words'.

Dyma fi'n awr yn tewi ... brysia i'r hen wlad; y mae'r Prins of Wels yn sôn am ddod; da thi tyrd o'i flaen.

Yn bur fyth,
Peredur Wyn.

Does wybod a fu i'r ohebiaeth barhau yn yr un cywair ai peidio ond gwyddom fod y bardd

wedi cadw mewn cysylltiad â'r teulu o Benbedw. Byddai, o bosibl', yn taro arnynt pan ddoi rhai ohonynt ar eu hald i'r Port yn ystod y gwyliau. A phan gynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhenbedw yn 1917, Margaret Griffith (Roberts bryd hynny wrth reswm) oedd y gyntaf i gynnig lle i Eifion Wyn ar eu haelwyd, Rhutherglen, pe ddi i'r Brifwyl. Gwaetha'r modd, fodd bynnag, yr oedd y dwymyn goch neu ryw anhwylder o'r fath ar gerdded drwy Eifionydd bryd hynny a Pheredur Wyn, oddeutu nawmlwydd y flwyddyn honno, yn un o'r dioddefwyr. O'r herwydd, fe gollodd y bardd y cyfle o fynychu Eisteddfod y Gadair Ddu.

Ond y mae'n debyg na fu llawer o gysylltiad rhwng y ddau hogyn rheini wedi iddynt dyfu, chwaith, ac unwaith y bu iddynt roi heibio eu pethau bachgennaidd. Fel y gwyddys, mae'n debyg, cafodd Peredur Wyn yrfa lwyddiannus yn y Banc ac ar ôl ymdeol, fe luniodd gofiant i'w dad a gyhoeddwyd gan Wasg Gomer yn 1980. Pensaer yn Llundain fu Arthur Meirion ac y mae'n ddiamau y byddai Eifion Wyn wedi bod yn eithriadol falch pe gwyddai iddo gadw'i Gymraeg er iddo gael ei eni a'i fagu ym Mhenbedw gan dderbyn addysg drwyadl Seisnig yno ac iddo wedyn dreulio gweddill ei oes yn Lloegr lle bu farw, rai blynyddoedd yn ôl bellach.

RHODDION

Einir Wyn Williams, Abersoch	£8
Bethan Wyn Jones, Llangeferni	£3
M. E. Morris, Aberystwyth	£3
Tom Ellis, Wrecsam	£5
Marion Eames, Dolgellau	£3
T. Gwynn Jones, Abergwaun	£3
B. S. Jones, Cricieth	£3
Mair Roberts, Cerrig y Drudion	£3
Elwyn Davies, Cricieth	£3
Dr T. E. G. Jones, Stouerbridge	£7
I. H. Pritchard, Pwllheli	£8
Elfed Roberts, Penrhyndeudraeth	£10.50
John Williams, Llanfarian	£8
H. E. Williams, Clynog Fawr	£8
Dr Iolo William Tregarth	£20
Ken Llwyd, Llandysul	£10
Mrs. R. Gray Davies, Llangollen	£8
Beti Ui Bahoill, Eire	£3
Y Parch. Phillip de le Haye, Y Bala	£15
S. E. Jenkins, Llan	£8
Yr Athro Deri Tomos, Tregarth	£20
Eifion Lloyd Davies, Penmachno	£5
Delyth Enaf Davies, Rhydaman	£5
Jeff Towns, Dylan Books	£15
W. L. Morgan,	£5
Lewis W. Davies, Llangoed, Ynys Môn	£3
Eleri Wynne Jones, Borth, Ynys Môn	£3
Don Llewellyn, Pentyrch	£5
Alwen Kemp, Llysfaen, Caerdydd	£8
Helga Martin, Ysbyty Ifan	£65
Nia Henson, Aberystwyth	£2.50
Dafydd ap Tomos, Porthaethwy	£10
Iona Pilling, Llanfachreth	£2.50
Gwen Roberts, Llanuwchllyn	£5
Cathie Roberts, Cricieth	£5
Robin Gwynndaf, Caerdydd	£8
Y Parch W. J. Edwards, Bow Street,	£3
Aberystwyth	£3
John V. Pritchard, Lancs	£10
Nesta Wyn Jones, Abergeirw	£10
Tegwyn Harris, Exeter	£10